# D Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (AEDdD):

# Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru)

## Cam un:  Nodi'r angen am AEDdD

### Cyflwyniad

1. Mae'r AEDdD hwn yn ystyried goblygiadau diogelu data cyflwyno deddfwriaeth newydd - Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru)  Mae'r Bil hwn yn sefydlu corff cyhoeddus newydd ("yr Awdurdod") y bydd ganddo swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag asesu, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Bydd angen i'r Awdurdod brosesu data personol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yng Nghymru yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.

2. Bydd yr AEDdD hwn yn ystyried y risgiau cyffredinol i hawliau a rhyddid unigolion sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth newydd gan ystyried tebygolrwydd a difrifoldeb yr effaith ar y testunau data ac yn asesu a yw'r risgiau hynny yn gyfiawn, yn angenrheidiol ac yn gymesur.

3. Roedd cwblhau offeryn sgrinio Llywodraeth Cymru yn dangos nad oes angen AEDdD llawn ar gyfer y Bil. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Erthygl 29 Gweithgor Diogelu Data, cynhaliwyd yr AEDdD hwn yn wirfoddol i sicrhau bod elfennau digidol a data'r Bil yn cydymffurfio â deddfau Diogelu Data ac mae'n ystyried effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar breifatrwydd. Y gred hefyd yw nad oes "gweithrediadau prosesu risg uchel" a fyddai'n mandadu cwblhau'r AEDdD Nodir y rhain yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

4. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r AEDdD hwn yn cwmpasu'r effeithiau diogelu data sy'n gysylltiedig â darpariaethau'r Bil, ac nid effeithiau'r systemau a'r gwasanaethau digidol penodol y bydd gofyn i'r Awdurdod eu gweithredu. Yn y cam cynnar hwn, nid yw'r gwaith o ddylunio'r systemau a'r gwasanaethau hyn wedi dechrau ac felly nid yw'n bosibl eto asesu effeithiau'r systemau a'r gwasanaethau hynny. Bydd y systemau a'r gwasanaethau hyn

yn cael eu dylunio gyda phreifatrwydd data mewn golwg. Lle mae’r AEDdD hwn yn trafod gwasanaethau digidol, mae’n cwmpasu egwyddorion a chyffredinoli yn unig; bydd AEDdD pellach ar gyfer y systemau a’r gwasanaethau digidol yn cael ei lunio maes o law ar ôl cwblhau’r dyluniad.

5. Mae'n berthnasol hefyd mai mater i'r Awdurdod ac unrhyw bersonau eraill sy'n rheolwyr/proseswyr data yn rhinwedd darpariaethau'r Bil (er enghraifft, y rhai sy'n dod o fewn ystyr "awdurdod cyhoeddus perthnasol" yn adran 55 o'r Bil) fydd sicrhau cydymffurfio ag Egwyddorion Erthygl 5/GDPR y DU yn gyffredinol, mewn perthynas â’r prosesu data a wneir ganddynt.

6. Rydym wedi bod yn ystyriol o asesu risg y darpariaethau wrth ddatblygu’r Bil. Nodir ein hasesiad risg yn Atodiad 2.

7. Mae hon yn ddogfen fyw a bydd pob agwedd yn cael ei hadolygu'n barhaus wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy graffu ac wedi hynny wrth i ni symud at weithredu’r ddeddfwriaeth.

**Cefndir**

8. Mae dros 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, yn bennaf yng nghymoedd y De. Ym mis Chwefror 2020, yn dilyn stormydd Ciara a Dennis, roedd cyfres o dirlithriadau tomenni glo yng Nghymru, gan gynnwys tirlithriad mawr tomen nas defnyddir yn Nhylorstown a achosodd i dros 60,000 o dunnelli o weddillion syrthio i Afon Rhondda Fach. Mae’r tirlithriadau hyn yn dangos y risgiau posibl y mae tomenni nas defnyddir yn peri i gymunedau.

9. Sefydlodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo yn gynnar yn 2020. Cafodd y dasg o gyflawni rhaglen waith eang gan gynnwys nodi lleoliad a statws yr holl domenni glo nas defnyddir yng Nghymru; sefydlu rhaglen archwilio a chynnal a chadw tomenni glo; sicrhau bod deddfwriaeth yn addas i’r diben, a datblygu rhaglen ar gyfer y dyfodol i adfer tomenni glo nas defnyddir i fynd i’r afael â materion sefydlogrwydd hirdymor.

10. I gefnogi’r rhaglen diogelwch tomenni glo, ymrwymodd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £65 miliwn mewn buddsoddiad cyfalaf dros dair blynedd - rhwng 2022/23 a 2024/25 - i gefnogi awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ac adfer ar domenni glo.

11. Ym mis Hydref 2020, gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith gan Lywodraeth Cymru i werthuso’r ddeddfwriaeth bresennol ac ystyried opsiynau ar gyfer deddfwriaeth newydd i sicrhau system reoleiddio gadarn, integredig, addas at y dyfodol, sy’n mabwysiadu dull unffurf o archwilio, cynnal a chadw a chadw

cofnodion mewn perthynas â thomenni glo. Cafwyd adroddiad ganddo ar 24 Mawrth 2022. Cafwyd nifer o argymhellion ganddo gan gynnwys creu un awdurdod goruchwylio, creu cofrestr o domenni glo, ac argymhellion yn ymwneud ag archwilio a chynnal a chadw parhaus tomenni glo.

12. Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru), a ymgynghorodd ar gynigion y Bil, gan Lywodraeth Cymru ar 12 Mai 2022. Tynnodd ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith a dadansoddi pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd Ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn ym mis Tachwedd 2022. Gofynnodd y Papur Gwyn a ddylai'r cynigion ar gyfer y Bil fod yn gymwys i domenni glo ac i domenni nad ydynt yn domenni glo (er enghraifft tomenni sy'n cynnwys gwastraff o ddiwydiant mwyngloddio metelau Cymru). Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebion (88%) y dylent. Felly, mae darpariaethau'r Bil yn gymwys i domenni glo ac i domenni nad ydynt yn domenni glo. Dylid nodi yr amcangyfrifir bod dros 20,000 o domenni (nad ydynt yn domenni glo) nas defnyddir yng Nghymru.

13. Roedd consensws cyffredinol yn deillio o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â thomenni glo nas defnyddir, Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 ("Deddf 1969") bellach yn addas i'r diben. Daeth i rym adeg pan oedd gan Gymru ddiwydiant glo gweithredol. O ganlyniad, nid oedd wedi'i dylunio ar gyfer rheoli tomenni glo nas defnyddir, ac nid yw'n mynd i'r afael yn ddigonol â hyn. O ganlyniad, mae'r Bil yn datgymhwyso Rhan 2 o Ddeddf 1969 i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac felly, pan fydd y Bil mewn grym, ni fydd Rhan 2 yn gymwys mewn perthynas â thomenni nas defnyddir sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru.

14. Nod y Bil yw atal dommeni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd y bydd ganddo swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

15. I grynhoi, mae'r Bil yn:

- sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru ("yr Awdurdod") fel corff corfforedig. Ei brif amcan wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.
- gwneud darpariaeth ar gyfer asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir;
- cynnwys darpariaethau sy'n galluogi'r Awdurdod i ddelio ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni. Mae hyn yn cynnwys pwerau i'w gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau ac i'r Awdurdod ei hun ymgymryd â gweithrediadau, a

darpariaethau cysylltiedig mewn perthynas â thaliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau o'r fath;

- cynnwys darpariaethau atodol gan gynnwys pwerau mynediad i'r Awdurdod, darpariaethau rhannu gwybodaeth a phwerau i ofyn am wybodaeth; ac yn
- creu troseddau cysylltiedig i gefnogi gorfodi'r gyfundrefn.

16. Fel mesur dros dro tan fydd yr Awdurdod yn weithredol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r data sydd gennym ar leoliadau tomenni glo nas defnyddir ar Map Data Cymru. Dynodwyd categorïau dros dro ar hyn o bryd i domenni nas defnyddir, ond byddant yn cael eu hailasesu gan yr Awdurdod newydd pan fydd yn mynd yn fyw ac yn ddarostyngedig i'r amserlen fonitro a chynnal a chadw briodol fel y darperir ar ei chyfer gan y canllawiau a fydd ochr yn ochr â'r Bil.

## Cam dau: Disgrifiwch y llifoedd gwybodaeth

17. Ar wahân i'r achosion gweddol brin lle prosesir data personol yn rhinwedd ei fod yn awdurdod cyhoeddus perthnasol, yr awdurdod apelydd ar gyfer apêl a wnaed o dan ddarpariaethau perthnasol y Bil neu le rhennir gwybodaeth yn unol ag adran 3 o'r Bil, ni fydd Llywodraeth Cymru yn Rheolwr ar gyfer data personol a brosesir mewn perthynas â'r Bil. Yr Awdurdod, ar ôl ei greu, fydd y parti sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ar gyfer prosesu sy'n gysylltiedig â'i ddyletswyddau.

### Darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am brosesu data personol

18. Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, cydnabyddir ei bod yn hanfodol i'r Awdurdod ymgysylltu â phartïon sy'n berchen, neu sydd â buddiant mewn tir, lle mae'r ymgysylltu hwnnw'n cyd-fynd â phrif amcan yr Awdurdod i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yng Nghymru yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd .

19. Mae'r canlynol yn amlinellu'r prif ofynion a osodir ar yr Awdurdod o fewn y Bil a fydd yn golygu bod angen prosesu data personol.

20. Bydd yr Awdurdod yn cadw 3 chategori cyffredinol o ddata:

- Data personol am y bobl hynny sydd â buddiant mewn tir ger tomen nas defnyddir neu sy'n cynnwys tomen nas defnyddir (e.e. perchnogion tir,

meddianwyr tir ac eraill) – gwybodaeth gyswllt yn bennaf, ond mewn nifer fach iawn o achosion gall hyn hefyd gynnwys manylion troseddau (honedig neu euogfarnedig);
- Gwybodaeth am y tomenni nas defnyddir eu hunain, gan gynnwys gwybodaeth geo-ofodol (e.e. nodi ffiniau tomenni ar fap) ac adroddiadau archwiliadau. Ni fydd yr wybodaeth hon o natur bersonol, ond os caiff ei chyfuno â ffynonellau data eraill sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd, gallai fod modd adnabod perchnogion tir;
- Hysbysiadau a gwybodaeth arall sy'n cysylltu unigolyn â thomen nas defnyddir, er enghraifft copi o hysbysiad a roddwyd i berchennog tir sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â gweithrediadau, neu sylwadau gan feddiannydd tir mewn ymateb i hysbysiad sy'n nodi'r bwriad i gofrestru'r domen.

21. Yn fras, bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal rhestr rhanddeiliaid wedi'i chysylltu â chofrestr electronig/cronfa ddata o domenni nas defnyddir. Bydd tomenni nas defnyddir sy'n peri (neu a allai beri) bygythiad i les dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd yn cael eu hasesu yn unol ag amserlen (neu weithiau oherwydd digwyddiad) gan ddibynnu ar lefel y risg. Fel rhan o'r broses hon, bydd perchnogion a meddianwyr tir y mae angen mynediad iddo at ddibenion asesu yn cael eu hysbysu o'r asesiad. Pan fydd yr Awdurdod yn cynhyrchu adroddiad, bydd perchnogion a meddianwyr tir y mae'r domen wedi'i lleoli arno yn cael eu hysbysu o gasgliadau'r adroddiad asesu. Gellir cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod os yw'n bwriadu cofrestru'r domen nas defnyddir. Trafodir elfennau'r llif gwybodaeth lefel uchel hwn yn fanylach yn yr adrannau nesaf.

<u>Cofrestr Electronig</u>

22. **Adran 6 - Cofrestr Electronig** – mae'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod greu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir yng Nghymru sy'n peri bygythiad i les dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd, neu a allai beri bygythiad pe baent yn troi'n ansefydlog. Mae'r gofrestr yn is-set o "gronfa ddata" o'r *holl* domenni nas defnyddir a nodwyd yng Nghymru y bydd yr Awdurdod yn ei chynnal. Dim ond y tomenni hynny yr ystyrir (ar sail asesiad) eu bod yn peri bygythiad i les dynol fydd ar y gofrestr. Mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i rai elfennau o'r gofrestr (gweler paragraff 23) fod yn hygyrch i'r cyhoedd drwy wasanaeth ar-lein (adran 9).

23. Mae'r Bil (adran 8) yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod sicrhau y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad at yr wybodaeth ganlynol yn electronig ar bob adeg resymol:
- map sy'n dangos ardal y domen
- yr enw neu'r enwau cyffredin (os bodolir) a ddefnyddir ar gyfer y domen
- lleoliad y domen
- cod adnabod unigryw a roddir i'r domen gan yr Awdurdod
- categori'r domen
- dyddiad yr archwiliad diweddaraf o'r domen (os bu archwiliad)

24. Er na fydd y data a gyhoeddir ynddo'i hun yn cynnwys unrhyw wybodaeth y byddai modd ei defnyddio'n uniongyrchol i adnabod unigolion, byddai'n darparu gwybodaeth a allai ganiatáu dod o hyd i wybodaeth am berchnogaeth tir o ffynonellau gwybodaeth eraill sydd eisoes ar gael yn ehangach i'r cyhoedd (e.e. cofnodion Cofrestrfa Tir EF) oherwydd ei leoliad. Mae'r wybodaeth am ffiniau tomenni glo sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd eisoes wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (fel mesur dros dro nes bod yr Awdurdod yn weithredol). O fewn gwasanaethau digidol yr Awdurdod, bydd data personol rhanddeiliaid wedi'u cysylltu â'r tomenni nas defnyddir y mae ganddynt fuddiant ynddynt trwy godau adnabod unigryw, ond ni fydd y data'n cael eu cadw gyda'i gilydd ac ni fydd manylion unrhyw randdeiliaid yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r gofrestr electronig: er bod modd eu cysylltu'n electronig drwy gronfa ddata berthynol, dylid ystyried y ddwy set ddata yn endidau ar wahân.

25. Mae ffiniau'r tomenni nas defnyddir yn darparu cyfeiriad gofodol a thrwy hyn daw perchnogion/meddianwyr tir yn rhan o'r gyfundrefn drwy bresenoldeb tomenni o fewn eu teitlau tir.

26. Mae pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi gwybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr. Nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wybodaeth ychwanegol o'r fath fod ar gael yn electronig i aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg resymol (adran 9). Nid oes unrhyw gynlluniau, ar hyn o bryd, i wneud rheoliadau o'r fath. Cymerwyd y pŵer pe bai ei angen, yng ngoleuni profiad neu adborth, i ychwanegu at yr wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi. Byddai ymgynghoriad ar unrhyw reoliadau o'r fath, a byddent yn ddarostyngedig i'r broses asesu effaith lle byddai goblygiadau diogelu data ychwanegu at yr wybodaeth sydd angen ei chynnwys ar y gofrestr yn cael eu harchwilio.

<u>Hysbysiadau</u>

27. **Adran 18, 19, 20, 21, 22, 23, 29, 30 Cyhoeddi hysbysiadau ar gyfer asesu, cofrestru, newid hysbysadwy a gwybodaeth** – Mae'r darpariaethau hyn yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod i roi hysbysiad i berchnogion tir ac eraill :

- cyn cynnal asesiad llawn o domen nas defnyddir;
- sy'n rhoi casgliad yr asesiad hwnnw;
- o fwriad i gofrestru;
- o'r penderfyniad ynghylch cofrestru (gallai hyn fod i roi'r domen nas defnyddir ar y gofrestr neu'n benderfyniad i beidio â'i chofrestru);
- o fwriad i ddileu tomen nas defnyddir o'r gofrestr);
- o'r penderfyniad ynghylch y bwriad i ddileu tomen nas defnyddir o'r gofrestr;

- bod bwriad i wneud newid hysbysadwy mewn perthynas â thomen nas defnyddir (h.y. newid categori neu newid i ardal y domen nas defnyddir). Mae hysbysiad cysylltiedig sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod hysbysu’r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â’r newid hysbysadwy.

28. Nid yw ffurf yr hysbysiadau priodol wedi’i rhagnodi gan y Bil, ond mae’r darpariaethau perthnasol yn glir mewn perthynas â diben yr hysbysiadau priodol, yr wybodaeth y mae’n rhaid i’r hysbysiadau ei chynnwys a phwy ddylai eu derbyn. Bydd cyflwyno hysbysiadau yn dibynnu ar wybodaeth gyswllt y partïon perthnasol sydd wedi’i chyrchu o gofnodion Cofrestrfa Tir EF gan yr Awdurdod, drwy’r testun data yn darparu eu gwybodaeth gyswllt yn uniongyrchol i’r Awdurdod, neu drwy barti arall yn darparu’r wybodaeth i’r Awdurdod i alluogi’r gyfundrefn i weithredu. Yn ddelfrydol, bydd hon yn wybodaeth gyswllt ddigidol megis e-bost, er na fydd gan yr Awdurdod unrhyw fanylion cyswllt electronig ar gyfer rhanddeiliaid i ddechrau. Gellir cyflwyno hysbysiadau drwy’r post, e-bost neu, mewn achosion lle nad oes modd i’r Awdurdod adnabod yr unigolion, drwy anfon hysbysiadau heb gynnwys enw’r derbynnydd at eiddo yr effeithir arnynt neu eu gosod mewn lleoliad amlwg (yn debyg i glymu hysbysiadau cynllunio i bolyn lamp). Gall hysbysiadau dienw (nad ydynt yn cynnwys enw’r derbynnydd) gael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod a gall y tîm cyfathrebu roi cyhoeddusrwydd iddynt gyda chymunedau lleol, er enghraifft drwy gynghorwyr sir/tref, tudalennau cyfryngau cymdeithasol cymunedol, ac ati.

29. **Adran 33, 35, 42, 44, 45 Cyflwyno hysbysiadau am waith** – yn unol ag adran 33 mae gan yr Awdurdod y pŵer, drwy hysbysiad, i’w gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau penodol ar y tir os yw’r Awdurdod o’r farn bod y gweithrediadau’n angenrheidiol i (a) atal neu fynd i’r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir; neu (b) sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag troi’n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol. Yn unol ag adran 35, pan fydd yr awdurdod yn cyhoeddi hysbysiad i berchennog tir o dan adran 33 sy’n ei gwneud yn ofynnol ymgymryd â gweithrediadau, rhaid i’r Awdurdod gyflwyno copi o’r hysbysiad i unrhyw berson arall sydd â buddiant yn yr hysbysiad. Rhagnodir y rhai sydd â buddiant yn yr adran ac mae’n cynnwys, er enghraifft, meddianwyr, y rhai sydd ag ystad neu fuddiant yn y tir (heblaw am fel codwr morgais), personau y mae’r Awdurdod o’r farn (o fewn y cyfnod o 12 mlynedd cyn rho’r hysbysiad i’r perchennog) eu bod wedi achosi neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau perthnasol. Er enghraifft, os bydd archwiliad yn nodi risg sy'n bygwth sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, gall yr Awdurdod gyflwyno hysbysiad i'r perchennog tir perthnasol sy'n ei gwneud yn ofynnol cymryd camau penodol o fewn cyfnod o amser a ddiffinir (e.e. i osod cwlfer o bwynt X i bwynt Y o fewn 12 mis i ddyddiad yr hysbysiad); byddai copi o'r hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyflwyno i bobl eraill sydd â buddiant yn yr hysbysiad, er enghraifft, meddianwyr y tir lle bydd y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad yn cael eu cyflawni, neu bersonau sydd, hyd y gwyddai’r Awdurdod, ag ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw.

30. Mae adran 42 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod ei hun ymgymryd â gweithrediadau ar dir os oes angen (a) atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu (b) sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag troi'n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol. Mae adran 44 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i roi hysbysiad i berchnogion ac mae adran 45 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copïau o'r hysbysiad i bartïon â buddiant. Eto, nid yw ffurf yr hysbysiad sy'n gofyn am waith neu sy'n hysbysu am waith wedi'i rhagnodi, ond mae'r darpariaethau perthnasol yn glir mewn perthynas â'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r hysbysiad ei chynnwys a phwy ddylai derbyn copi o'r hysbysiad.

31. Cyhoeddir hysbysiadau gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt sydd gan yr Awdurdod wedi'i chyrchu o sawl ffynhonnell. Bydd yr Awdurdod yn cofnodi pa hysbysiadau a gyflwynwyd i ba bersonau fel rhan o'i dasgau gweinyddol. Bydd cyflwyno hysbysiadau yn defnyddio'r un gronfa ddata o wybodaeth gyswllt a ddefnyddir ar gyfer pob cyfathrebu. Ni fydd copïau o hysbysiadau yn cynnwys gwybodaeth lle bydd modd adnabod perchennog y tir a dderbyniodd yr hysbysiad, byddant ond yn cyfeirio at y ffaith bod hysbysiad wedi'i gyflwyno i berchennog y tir. Yn yr un modd, bydd yr hysbysiad i berchennog y tir yn cyfeirio at y ffaith bod copïau wedi'u rhoi i feddianwyr ac eraill, heb gynnwys gwybodaeth lle bydd modd adnabod y derbynwyr hynny.

32. **Adran 63 – Mynediad i dir heb warant –** mae adran 62 yn darparu bod gan berson a awdurdodir gan yr Awdurdod (person awdurdodedig) y pŵer i fynd ar dir at unrhyw un o'r dibenion a restrir yn adran 62(1). Mae adran 63 yn darparu na chaiff person awdurdodedig fynnu mynediad fel hawl i dir sydd wedi'i feddiannu, neu fynd â phobl eraill neu offer i'r tir, neu adael offer ar y tir, oni bai bod o leiaf 48 awr o rybudd wedi'i roi i bob meddiannydd y tir. Nid yw'r gofyniad i roi hysbysiad yn gymwys os yw'r Awdurdod o'r farn bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog a bod yr ansefydlogrwydd yn peri bygythiad i les dynol sy'n gofyn am fynediad ar unwaith i dir at un o'r dibenion a nodir yn adran 62(1)(c) neu (e). Nid yw ffurf yr hysbysiad wedi'i nodi ar wyneb y Bil, ond byddai'r person awdurdodedig yn rhoi rhybudd o amser a dyddiad y mynediad arfaethedig a'r rheswm dros fynediad. Ystyrir ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol rhoi rhybudd cyn mynd ar dir sydd wedi'i feddiannu. Mae'n gymesur hepgor y gofyniad i roi hysbysiad yn yr amgylchiadau cul a amlinellir yn adran 63(3) pan fydd ansefydlogrwydd tomen nas defnyddir yn peri bygythiad i les dynol sy'n gofyn am fynediad ar unwaith i'r tir.

33. **Adran 58 - Gwybodaeth am fuddiannau mewn tir** – mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod roi hysbysiad i feddiannydd tir neu berson sy'n derbyn rhent mewn perthynas â'r tir perthnasol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gadarnhau natur eu buddiant yn y tir perthnasol, ac os ydynt yn gwybod am berson arall sydd ag ystad neu fuddiant yn y tir, a manylion cyswllt y person hwnnw (os yw'n hysbys). Mae diffiniad manylion cyswllt yn golygu cyfeiriad y person ac unrhyw wybodaeth arall am sut y gellid cysylltu â'r person. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Ni all yr Awdurdod roi hysbysiad o'r fath oni bai bod angen yr wybodaeth arno i'w

gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil. Bydd yn bwysig i’r Awdurdod ddarparu’r wybodaeth breifatrwydd berthnasol adeg cysylltu â’r unigolyn hwnnw, gan na fydd y person hwnnw o reidrwydd yn ymwybodol o sut y daeth yr Awdurdod i brosesu ei wybodaeth bersonol. Mae hyn yn rhan o’r [Hawl i gael gwybod | Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth](). Nid Llywodraeth Cymru fydd rheolwr data'r data personol, ond bydd Llywodraeth Cymru yn atgoffa'r Awdurdod o'r gofyniad hwn mewn canllawiau ategol a baratoir pan fydd yr Awdurdod wedi’i sefydlu. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau y bydd yr hysbysiadau templed sydd i’w cyhoeddi yn cynnwys adrannau i fynd i’r afael â hyn (er enghraifft, “rydym wedi nodi eich bod yn berson sydd â buddiant mewn tir, ac rydym yn cysylltu â chi oherwydd…”).

34. Gellir rhannu data personol o dan y ddarpariaeth hon, ond mae'r Bil yn nodi'n glir nad yw'n ofynnol rhoi gwybodaeth yn groes i unrhyw waharddiad a gynigir gan unrhyw ddeddfu neu reol gyfreithiol. Yn ymarferol rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, i geisio cael gwybodaeth sy’n gysylltiedig â pherchenogaeth tir ac i adnabod y rhai sydd â buddiannau mewn tir – fel y gall gydymffurfio â darpariaethau'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno hysbysiadau. Bydd hysbysiadau adran 58 yn ddefnyddiol, er enghraifft, pan fydd yr Awdurdod yn ceisio nodi perchnogaeth a buddiannau mewn tir sydd heb ei gofrestru.

35. **Adran 59 – Gwybodaeth am fuddiannau mewn Tir y Goron –** Mae’r Bil yn rhoi pŵer i’r Awdurdod, at ddiben galluogi neu gynorthwyo’r Awdurdod i arfer swyddogaeth o dan y Bil, ofyn i awdurdod priodol y Goron gadarnhau yn ysgrifenedig: (a) natur ei fuddiant yn nhir y Goron; ac (b) os yw’r awdurdod yn gwybod am berson arall sydd ag ystad neu fuddiant yn y tir, manylion cyswllt y person arall (os yw’n hysbys). Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod priodol y Goron gydymffurfio â'r cais ac eithrio pan nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn gwybodaeth yr awdurdod neu le byddai cydymffurfio'n datgelu gwybodaeth am ddiogelwch gwladol neu fesurau i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu eiddo arall.

36. **Adran 60 - Gwybodaeth i nodi neu asesu bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir ac ati.** - Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod gyflwyno hysbysiad i berson sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn yr hysbysiad. Gall yr Awdurdod ond rhoi hysbysiad o'r fath os yw'r Awdurdod o'r farn y bydd yr wybodaeth yn galluogi neu'n cynorthwyo'r Awdurdod i nodi neu asesu bygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu asesu sefydlogrwydd tomen nas defnyddir ac mae gan yr Awdurdod reswm i gredu bod yr wybodaeth y gofynnir amdani ym meddiant y person neu o dan eu rheolaeth.

37. Er nad yw'n ofynnol i'r Awdurdod nodi fel rhan o'r hysbysiad pam ei fod yn credu bod gan y person wybodaeth o'r math hwn, bydd wedi asesu hyn cyn cyflwyno'r hysbysiad. Nid yw'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth arall

38. Gallai'r wybodaeth a ddarperir gynnwys gwybodaeth bersonol am y parti y cyflwynwyd yr hysbysiad iddynt, ar ben hynny sydd gan yr Awdurdod eisoes

(er enghraifft, y dyddiad y dechreuodd eu buddiant yn y tir). Neu, gall nodi partïon eraill (drwy eu henwau neu drwy ddull arall, megis ffotograffau / fideo ac ati) gan ddangos gweithgareddau neu nodi person yn ymgymryd â gweithgareddau (neu'n methu ag ymgymryd â gweithgareddau penodol) ar dir a allai gyfrannu at fygythiad i sefydlogrwydd y domen. Byddai'r data hyn yn cael eu prosesu er mwyn nodi neu asesu bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir a gallai nodi'r parti (neu'r partïon) a fyddai'n derbyn hysbysiadau pellach.

39. Mae'n drosedd, o dan adran 61, os yw person y mae'n ofynnol iddynt roi gwybodaeth o dan adran 58 neu adran 60 yn methu â gwneud hynny heb esgus rhesymol. Gall yr Awdurdod ddwyn erlyniadau am droseddau o dan y Bil, neu gall y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus eu dwyn (adran 72).

40. **Adran 56 - Pŵer yr Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth** – mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ofyn i awdurdodau cyhoeddus perthnasol am wybodaeth i'w alluogi neu i'w gynorthwyo i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau. Mae adran 55 o'r Bil yn diffinio "awdurdod cyhoeddus perthnasol" (ACP). Yr Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol yw Gweinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru, yr Awdurdod Glo ac Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer ardal yng Nghymru. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y diffiniad o ACP, fel bod modd i Weinidogion Cymru gynnwys unrhyw berson fel ACP, ar yr amod bod y person hwnnw'n awdurdod Cymru datganoledig o fewn ystyr a.157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Os bydd ACP yn gwrthod rhoi'r wybodaeth yn dilyn cais gan yr Awdurdod, rhaid iddynt ddarparu rhesymau yn ysgrifenedig.

41. Nid yw natur yr wybodaeth y gallai fod ei hangen wedi'i diffinio, ac eithrio bod yn rhaid iddi fod yn wybodaeth sy'n galluogi neu sy'n cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau. Er enghraifft, gallai'r Awdurdod ofyn am unrhyw adroddiadau blaenorol ar domen nas defnyddir, unrhyw gynlluniau ar gyfer tomen nas defnyddir a allai, er enghraifft, ddangos sianeli draenio; manylion unrhyw achosion blaenorol o symudiad ar domen nas defnyddir ac ati. Gallai gwybodaeth o'r fath gynnwys gwybodaeth a fyddai'n ei gwneud yn bosibl adnabod person. Un sefyllfa debygol a fyddai'n cynnwys prosesu gwybodaeth bersonol fyddai ACP yn darparu manylion am gyn meddiannaeth neu feddiannaeth bresennol tomen benodol sy'n eiddo'r awdurdod cyhoeddus ac nad yw'n hysbys i'r Awdurdod.

42. Bydd angen i Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol sicrhau, fesul achos, pryd bynnag y bydd unrhyw ddata personol i'w rhannu gyda'r Awdurdod, bod y rhannu'n gyfreithlon, yn briodol ac yn ofynnol (h.y. ni ellir cyflawni'r dibenion trwy ddulliau eraill heb rannu data personol).

43. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol 2017, ac un o'i nodau allweddol yw galluogi gwell

gwasanaethau cyhoeddus drwy ddarparu pwerau i rannu data rhwng awdurdodau cyhoeddus. Y bwriad yw gwneud rheoliadau sy'n ychwanegu'r Awdurdod at y cyrff sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Ddeddf honno.

44. **Adran 57 - Dyletswyddau'r Awdurdod a'r Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol i rannu gwybodaeth** – Mae'r Bil yn darparu os daw ACP, wrth arfer ei swyddogaethau, yn ymwybodol o fygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu o dystiolaeth o ansefydlogrwydd tomen nas defnyddir ac mae'n ystyried y dylai'r wybodaeth gael ei rhannu gyda'r Awdurdod er mwyn osgoi neu leihau bygythiad i les dynol, rhaid i'r ACP roi'r wybodaeth i'r Awdurdod cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

45. Mae'r Bil yn gosod yr Awdurdod o dan ddyletswydd gyfatebol i rannu gwybodaeth gydag ACP, os daw'r Awdurdod yn ymwybodol o rywbeth y mae'n ystyried y dylid ei ddwyn i sylw ACP at ddibenion swyddogaethau'r awdurdod hwnnw.

46. Mae'r Bil yn nodi nad yw'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan unrhyw ddeddfu neu reol gyfreithiol arall.

47. Nid yw union natur yr wybodaeth sydd i'w rhannu wedi'i diffinio ond mae'n debygol o fod yn berthnasol i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir. Gallai'r wybodaeth gynnwys gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â pherchnogaeth tir sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir.

48. Bydd angen i'r Awdurdod fodloni ei hun, fesul achos, pryd bynnag y bydd unrhyw ddata personol i'w rhannu gydag ACP, bod y rhannu'n gyfreithlon, yn briodol ac yn ofynnol (h.y. ni ellir cyflawni'r dibenion trwy ddulliau eraill heb rannu data personol).

49. Un enghraifft o hyn yw pan fydd Archwilydd Tomenni nas Defnyddir, wrth gynnal archwiliad rheolaidd, yn nodi adeilad newydd ar ardal y domen nad oedd yn bresennol adeg yr archwiliad diwethaf, a allai effeithio ar sefydlogrwydd y domen, ac nad oes nodyn (yng nghofnodion yr Awdurdod) o gymeradwyaeth gynllunio ar ei gyfer. Yna gellir rhannu'r wybodaeth (o bosibl) am yr adeilad newydd a'r meddiannydd presennol a pherchennog y tir gyda'r awdurdod lleol priodol i sicrhau yr oedd cymeradwyaeth gynllunio ar waith.

50. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod Cytundeb Rhannu Data ar waith rhyngddo a'r corff y bydd yn rhannu'r data ag ef.

51. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol 2017 i gefnogi rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng cyrff cyhoeddus.

52. **Adran 4 - Darparu Cymorth Ariannol –** Bydd gan yr Awdurdod y pŵer i ddarparu cymorth ariannol i unrhyw berson tuag at unrhyw beth y mae'r Awdurdod yn ei ystyried sy'n gydnaws â chyflawni ei brif amcan.

53. Gall darparu cymorth ariannol olygu bod angen prosesu gwybodaeth bersonol er mwyn hwyluso talu a threfnu gwneud taliadau. Gall hyn fod yn fanylion unigolion neu staff preifat neu gyrff eraill. Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â thaliadau yn ddarostyngedig i gyfnodau cadw a threfniadau diogelwch penodol a allai fod yn wahanol i fathau eraill o wybodaeth oherwydd gofynion archwilio.

54. Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol yn cael ei chasglu'n uniongyrchol oddi wrth y partïon perthnasol ac ni fydd yn cael ei chasglu o ffynonellau eraill na'i phrosesu at ddibenion eraill oni bai ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

55. **Adran 3 - Gwybodaeth, cyngor a chymorth** - Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu'r cyfryw wybodaeth, cyngor neu gymorth i Weinidogion Cymru am unrhyw un o'u swyddogaethau y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru. Nid oes rhaid i'r Awdurdod aros am gais gan Weinidogion Cymru a gall, o'i fenter ei hun, ddarparu gwybodaeth ac ati i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Mewn achosion penodol, gallai hyn olygu rhannu gwybodaeth bersonol sydd ar gael i'r Awdurdod gyda Gweinidogion Cymru.

56. Mater i'r Awdurdod fydd sicrhau, fesul achos, pryd bynnag y bydd unrhyw ddata personol i'w rhannu gyda Gweinidogion Cymru, bod y rhannu'n gyfreithlon, yn briodol ac yn ofynnol (h.y. ni ellir cyflawni'r dibenion trwy ddulliau eraill heb rannu data personol). Bydd yr Awdurdod yn derbyn cymorth yn ystod y cyfnod gweithredu i sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau.

57. **Adran 5 - Pwerau Ategol** – Mae'r Bil yn rhoi pwerau ategol i'r Awdurdod wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer ei swyddogaethau neu sy'n gysylltiedig neu'n gydnaws â hyn. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth â chyrff eraill, er enghraifft awdurdodau lleol yn Lloegr mewn perthynas â thir sy'n cynnwys, neu sy'n agos at domenni nas defnyddir sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

58. Bydd rhaid i'r Awdurdod sicrhau, fesul achos, pryd bynnag y bydd unrhyw ddata personol i'w rhannu, bod y rhannu'n gyfreithlon, yn briodol ac yn ofynnol (h.y. ni ellir cyflawni'r dibenion trwy ddulliau eraill heb rannu data personol).

59. Mae'r Bil hefyd yn darparu **(adran 68 - Darparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol)** y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol i unrhyw awdurdodau datganoledig yng Nghymru (o fewn ystyr adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau digidol a reolir i

gyrff cyhoeddus eraill (y mae’n debygol y byddant yn llai o faint) yng Nghymru er mwyn gwireddu arbedion maint. Ni fyddai hyn yn golygu rhannu data rhwng sefydliadau, oni chytunir ar hyn drwy Gytundeb Rhannu Data fel gyda chyrff eraill.

60. Mae adran 72 (Dwyn achos) yn darparu y gall yr Awdurdod ddwyn achos mewn cysylltiad â throseddau o dan y Bil neu drwy neu gyda chydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Os bydd yr Awdurdod yn dwyn achos mewn cysylltiad â throseddau o dan y Bil, mae'n debygol y bydd yn rhaid iddo brosesu data personol. Mater i’r Awdurdod fydd sicrhau, fesul achos, pryd bynnag y bydd unrhyw ddata personol yn cael eu prosesu o dan y ddarpariaeth hon, bod y prosesu’n gyfreithlon, yn briodol ac yn ofynnol.

<u>Cadw data, cyfnod cadw data</u>

61. O ran data personol y bydd yr Awdurdod yn eu cadw, disgwylir i hyn fod yn gyfyngedig i’r canlynol:
- Enw a Theitl;
- Cyfeiriad cyswllt;
- Rhif ffôn;
- Cyfeiriad e-bost;
- Dolen i ddynodydd tomen/dynodyddion tomenni, y math o fuddiant mewn tir (h.y. perchennog, meddiannydd, ac ati), y dyddiad y dechreuodd eu buddiant ac a ddaeth i ben (os nad oes ganddynt fuddiant yn y tir mwyach);
- Teitl/teitlau tir neu ddogfennaeth arall sy’n ymwneud â buddiant mewn tir;
- Gwybodaeth fancio ar gyfer unigolion preifat - dim ond ar gyfer y rhai sy'n derbyn cymorth ariannol neu ddigolllediad.

62. O dan y Bil, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gadw manylion perchnogion a meddianwyr tir sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir am y 12 mlynedd flaenorol, pan fydd ar gael yn rhesymol. Fel y nodir uchod, bydd rhan o’r data personol a gedwir yn cynnwys y cyfnod o amser pan oedd gan y person fuddiant mewn tomen; 12 mlynedd ar ôl i’r buddiant hwn ddod i ben, bydd y data’n cael eu dileu (oni bai bod ganddynt fuddiant o hyd mewn tomen nas defnyddir wahanol, neu maent yn dechrau buddiant newydd yn yr un domen - er enghraifft maent yn meddiannu’r plot teitl drws nesaf sydd hefyd yn dod o fewn ffiniau’r domen).

63. Bydd gohebiaeth a dderbyniwyd ac a anfonwyd mewn perthynas â hysbysiadau (ac unrhyw apelau dilynol) hefyd yn cael eu cadw, am gyfnod i’w ddiffinio o fewn polisi rheoli cofnodion yr Awdurdod.

64. Bydd gohebiaeth a chofnodion cysylltiedig at ddibenion yr Awdurdod yn darparu cymorth ariannol a/neu ddigolllediad yn cael eu cadw at ddibenion archwilio am gyfnod i'w ddiffinio o fewn polisi rheoli cofnodion yr Awdurdod ac sydd o fewn normau statudol.

65. Mae'n bosibl hefyd y bydd data yn cael eu cadw ar droseddau yr honnir eu bod wedi'u cyflawni gan bersonau. Byddai data troseddau yn cael eu cadw ar wahân ond wedi'u cysylltu â'r rhestr rhanddeiliaid (oherwydd gallai'r rhai sy'n cyflawni troseddau fod yn rhanddeiliaid presennol – perchennog tir nad yw wedi cydymffurfio â hysbysiad i ymgymryd â gwaith, meddiannydd tir nad yw wedi ymateb i hysbysiad i ddarparu gwybodaeth, ac ati). Bydd data troseddau yn cael eu cadw am gyfnod o 11 mlynedd ar ôl y dyddiad erlyn (6 blynedd ar ôl y dyddiad erlyn, y gall y testun data gyflwyno apêl bosibl yn ystod y cyfnod hwn cyn y gellid ystyried bod yr achos wedi'i gau, wedyn 5 mlynedd y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw fel bod y cofnodion ar gael am gyfnod byr i gyfeirio'n ôl atynt, er enghraifft os oes troseddau honedig dilynol gan yr un person) cyn eu gwaredu. Os nad yw trosedd honedig yn arwain at erlyniad (h.y. nid yw cyhuddiad yn cael ei ddwyn i'r llys am euogfarn), bydd y cofnodion sy'n ymwneud â'r digwyddiad hwnnw'n cael eu cadw am 5 mlynedd o ddyddiad y digwyddiad hwnnw cyn cael eu dinistrio. Penderfynwyd hefyd ar y cyfnod cadw oherwydd gallai'r wybodaeth a gedwir fod yn dystiolaeth o gred yr Awdurdod bod person wedi achosi neu wedi cyfrannu at yr angen am weithrediadau yn y 12 mlynedd cyn cyflwyno hysbysiad adran 33 i berchennog (adran 35(2)(f)).

66. O ran y testunau data posibl, nid oes targedu o ddemograffeg benodol. Bydd gan destunau data fuddiant mewn tir lle mae tomen nas defnyddir benodol wedi'i lleoli, a hwn bydd yr unig beth sy'n gyffredin rhyngddynt; disgwylir y gallai fod gwahanol ryweddau, ardaloedd daearyddol, hiliau, ac o bosib, cwmnïau ymhlith y rhestr rhanddeiliaid. Efallai bydd rhai yn byw tramor (neu'n gwmnïau sydd wedi'u lleoli mewn gwledydd eraill).

## Sut bydd y data'n cael eu casglu, eu storio, eu defnyddio a'u cyrchu

67. Bydd trosglwyddiad data cychwynnol (o dan gytundeb trosglwyddo data) yn digwydd o wasanaeth interim Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ddata o Gofrestrfa Tir EF yn seiliedig ar groestoriad data geo-ofodol sy'n ymwneud â thomenni nas defnyddir gyda ffiniau teitlau tir wedi'u digideiddio.  Mae hyn yn darparu llinell sylfaen o berchnogion tir y mae tomenni nas defnyddir yn effeithio ar eu teitlau.

68. Bydd yr Awdurdod yn casglu gwybodaeth am berchnogion tomenni nas defnyddir yn barhaus, yn y lle cyntaf o Gofrestrfa Tir EF lle mae eu teitlau tir yn gorgyffwrdd â ffiniau tomenni nas defnyddir. Mae hyn yn cynnwys enw'r perchennog tir a chyfeiriad cofrestredig y perchennog tir yn ogystal â rhif teitl ar gyfer y tir. Disgwylir y bydd yr Awdurdod hefyd yn casglu gwybodaeth

gyswllt ddigidol ar gyfer y perchennog tir/meddianwyr/deiliaid prydlesi/partïon â buddiant er mwyn hwyluso cyfathrebu digidol; nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd yr wybodaeth ddigidol yn cael ei chasglu (bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod cam gweithredu dros y 2 – 3 blynedd nesaf), ond y rhagdybiaeth weithredol yw y bydd y testunau data eu hunain yn cyflwyno'r wybodaeth. Mae'n bosibl bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn gwybodaeth am randdeiliaid gan awdurdodau cyhoeddus eraill a thrwy ymatebion i hysbysiadau gwybodaeth a gyflwynir.

69. Bydd gwybodaeth am ffiniau tomenni nas defnyddir ar gofrestr asedau'r Awdurdod yn cael ei chyhoeddi ar-lein a bydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd yr holl ddata, gan gynnwys data personol, a brosesir gan yr Awdurdod yn cael eu prosesu o fewn y Deyrnas Unedig. Mae Glasbrint Digidol yr Awdurdod yn nodi'r angen am wytnwch daearyddol ar gyfer data a gwasanaethau o fewn y DU. Felly, mae'n debygol y bydd storfa wrth gefn o'r data mewn lleoliad arall o fewn y DU, i sicrhau y gall yr Awdurdod weithredu pe bai'r prif ganolfan ddata yn methu (yn enwedig mewn sefyllfaoedd brys).

70. Mae pwerau sy'n ymwneud â defnyddio data personol wedi'u hamlinellu uchod. Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu gweithgareddau disgwyliedig yr Awdurdod:

i. Rheoli/cynnal ffiniau cofnodedig tomenni glo nas defnyddir;
ii. Casglu data ar gyfer yr holl domenni nad ydynt yn domenni glo yng Nghymru;
iii. Rheoli/cynnal ffiniau cofnodedig tomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir;
iv. Cyflwyno hysbysiadau i berchnogion tomenni/meddianwyr/deiliaid prydlesi/partïon â buddiant;
v. Cyflwyno hysbysiadau i unigolion "sydd â buddiant" nad ydynt yn berchen ar dir lle mae tomenni wedi'u lleoli (e.e. perchnogion tir cyfagos, perchnogion seilwaith cysylltiedig megis draenio, perchnogion/meddianwyr blaenorol yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, ac ati);
vi. Cyfathrebu rheolaidd wedi'i dargedu, e.e. diweddariadau ar y broses asesu;
vii. Dosbarthu cyfathrebu heb ei dargedu (lle mae testunau data wedi dewis derbyn hyn);
viii. Darparu cyngor penodol ar gynnal a chadw, monitro ac ati i berchnogion tomenni;
ix. Prosesu gwybodaeth banc (lle darperir hyn gan y testun data) ar gyfer digollediad neu ad-dalu costau eraill.
x. Rheoli apelau (gan gynnwys archifo canlyniadau);
xi. Rheoli gweithgareddau gorfodi, (gan gynnwys gweithgarwch cyfreithiol) megis cyflwyno dirwyon;
xii. Penderfynu atebolrwydd posibl sy'n gysylltiedig â rheoli tir sy'n achosi ansefydlogrwydd (e.e. cael gwared ar fur cynhaliol neu

gloddio mewn i domen nas defnyddir) ar gyfer cyn berchnogion tir (hyd at 12 mlynedd yn y gorffennol);

xiii. Gwirio hunaniaeth wrth ymgysylltu â pherchnogion tir naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;

xiv. Bydd mynediad i feysydd "personol" gwasanaethau digidol yr Awdurdod (e.e. y porth apelau) yn cael ei reoli drwy ddefnyddio Gov.UK OneLogin fel y gwasanaeth dilysu;

xv. Defnyddio gwybodaeth bersonol mewn perthynas ag ymateb brys a chynllunio ymateb - yn enwedig gwybodaeth am ffiniau, ond o bosibl yn ymestyn i enwau perchnogion/meddianwyr tomenni a gwybodaeth gyswllt lle bo hynny'n briodol i'r ymateb brys di-oed;

xvi. Swyddogaethau sylfaenol yr Awdurdod. (e.e. AD, cyflogres ar gyfer ei staff ac ati).

71. Bydd y data geo-ofodol sy'n disgrifio ffiniau (lleoliad a rhychwant) tomenni nas defnyddir (h.y. data lle nad oes modd adnabod person) yn cael eu cadw gan yr Awdurdod am gyfnod amhenodol cyhyd ag y mae'n parhau fel y prif gorff sy'n cydgysylltu gweithgareddau tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Mae'r cyfnod cadw yn adlewyrchu pwysigrwydd deall lleoliad a rhychwant tomenni dros amser er mwyn galluogi eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Bydd y rhan fwyaf o domenni nas defnyddir yn parhau i fod yn rhannau parhaol o dirwedd Cymru a bydd angen i'w lleoliadau a'u rhychwantau fod ar gofnod parhaol i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried. Os byddai ffin tomen yn newid o ganlyniad i arferion rheoli neu gael ei symud, byddai ei rhychwant gwreiddiol yn elfen hanfodol o ddeall ei chyflwr presennol a'i heffaith bosibl ar arferion defnydd tir yn yr ardal honno. Gall gwybodaeth hanesyddol lywio digwyddiadau cyfredol/yn y dyfodol (e.e. gallai tirlithriad gael ei achosi gan waith hanesyddol a wnaed ar domen). Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pherchnogion/meddianwyr tomenni nas defnyddir yn cael ei chadw gan yr Awdurdod at ddibenion archwilio, fodd bynnag, nid yw amserlen gadw sy'n briodol ar gyfer gwahanol weithgareddau'r Awdurdod (digolledu, apelau, darparu cyngor ac ati) wedi'i phenderfynu eto (ond bydd wedi'i gweithredu cyn i'r Awdurdod ddod yn weithredol a bydd yn cyd-fynd â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Mae hyn hefyd yn cynnwys prosesau priodol ar gyfer dileu/gwaredu data yn ddiogel (data personol a data eraill) ar ôl cyrraedd diwedd y cyfnod cadw. Mae Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r gwaith hwn ac wedi cytuno i gefnogi (drwy ddarparu cyngor ac arweiniad) diffinio cyfnodau cadw priodol wrth i'r cynllun gweithredu fynd rhagddo.

72. Yr Awdurdod fydd y rheolydd data ar gyfer yr holl brosesu o ddata personol wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau.

**Sut bydd y data yn cael eu prosesu**

73. Nid yw'r Bil yn nodi sut y bydd data personol yn cael eu prosesu gan yr Awdurdod (ac ni fyddai disgwyl iddo wneud hynny) ond mae swyddogaethau a rhwymedigaethau'r Awdurdod a nodir yn y Bil yn rhoi trosolwg cyffredinol o sut y bydd data yn cael eu prosesu. Yn ystod sefydlu'r Awdurdod, bydd staff Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad ac yn sicrhau, er enghraifft, y darperir caledwedd a meddalwedd digidol priodol i gefnogi prosesu cyfreithlon. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mater i'r Awdurdod yw sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag Egwyddorion Erthygl 5 / GDPR y DU yn gyffredinol mewn perthynas â'r prosesu data a wneir ganddo.

74. Bydd data personol yn cael eu casglu o bedair ffynhonnell bosibl: y testunau data eu hunain yn darparu'r wybodaeth hon i'r Awdurdod, cofnodion Cofrestrfa Tir EF, data a ddarperir gan Awdurdodau Cyhoeddus eraill, a data a ddarperir gan bartïon eraill. Bydd hyn yn cael eu cadw mewn rhestr rhanddeiliaid gan yr Awdurdod, y bwriedir ei chysylltu â’r data geo-ofodol ar gyfer tomenni unigol (h.y. mae'n bosibl y bydd nifer o randdeiliaid yn rhanddeiliaid ar gyfer mwy nag un domen). Pan ddaw’r amser i’r Awdurdod gynnal archwiliad/asesiad o domen nas defnyddir, bydd angen i’r Awdurdod gysylltu â meddianwyr y tir perthnasol i gyflwyno hysbysiadau perthnasol/ priodol. Bydd unrhyw gyfathrebu a anfonir (gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau) neu a dderbynnir yn cael eu storio yn y System Rheoli Dogfennau. Os bydd rhanddeiliad yn cyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad (e.e. apêl yn erbyn hysbysiad o dan adran 33 sy’n ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau), bydd y data a gyflwynir ganddynt yn cael eu storio yn y System Rheoli Dogfennau ac yn cael eu defnyddio i lywio dyfarniad ar yr apêl.

75. Bydd data personol yn cael eu prosesu pan fydd yr Awdurdod yn arfer ei swyddogaethau o dan y Bil. Bydd y gweithgareddau a wneir pan fydd yr Awdurdod yn arfer y swyddogaethau hynny'n cynnwys cyfres o systemau mewnol cydgysylltiedig a weithredir gan yr Awdurdod. Adeg ysgrifennu hwn, parhau y mae swyddogion Llywodraeth Cymru i ddiffinio pensaernïaeth y system, ond bydd yn cael ei dylunio o fewn fframweithiau gweithredol a fframweithiau diogelwch TG mewnol tebyg a weithredir gan Lywodraeth Cymru i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod pan ddaw'r corff newydd ar-lein.

76. Bydd data ond yn cael eu cadw am gyfnod a ddiffinir, fel y nodir ym mharagraff 72 uchod, bydd yr Awdurdod yn cael ei gefnogi yn ystod y cyfnod gweithredu i ddatblygu polisïau cadw cofnodion priodol. Ar ddiwedd y cyfnod cadw, bydd y data yn cael eu dileu yn awtomatig gan wasanaethau digidol yr Awdurdod.

<u>Data troseddau</u>

77. Bydd yr Awdurdod yn prosesu ychydig o ddata troseddau (o dan adran 72, 35(2)(f), 45(2)(f) a 46(2)(c)). Ym mhob achos, bydd y prosesu hwn at ddibenion gorfodi'r gyfraith. Mae'r Awdurdod yn awdurdod cymwys (o fewn ystyr adran 30(1)(b) o Ddeddf Diogelu Data 2018) oherwydd mae’r Bil yn darparu swyddogaethau statudol i arfer pwerau cyhoeddus at ddibenion

gorfodi'r gyfraith (o fewn ystyr adran 31 o Ddeddf Diogelu Data 2018). Wrth brosesu data troseddau o dan y swyddogaethau hyn, mater i'r Awdurdod fydd bodloni ei hun ei fod yn prosesu data o'r fath yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Yn ystod sefydlu'r Awdurdod, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad i gynorthwyo'r Awdurdod gyda hyn. Mae'r ddarpariaeth hon yn angenrheidiol i ganiatáu gorfodi'r gyfundrefn newydd yn effeithiol o dan y Bil.

## Cam tri: Angenrheidrwydd a chymesuredd

### Angenrheidrwydd

78. Bydd darpariaethau'r Bil a restrir yng Ngham Dau (Disgrifiwch y Llifoedd Gwybodaeth) o'r ddogfen hon yn gofyn am brosesu data personol. Bydd rhai darpariaethau yn gofyn am brosesu rhai elfennau penodol o ddata personol ond mae darpariaethau eraill yn llai rhagnodol ond serch hynny mae'n bosibl y byddant yn gofyn am brosesu data personol i weithredu. Mae'r adran hon yn esbonio pam bod prosesu data personol yn angenrheidiol ac yn gymesur i gyflawni nodau ac amcanion y Bil.

79. Mae'r adran sy'n esbonio'r cefndir yn nodi pam nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol (Deddf 1969) bellach yn addas i'r diben. Yn nodedig, canfu adroddiad Comisiwn y Gyfraith 'Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru' nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer rheoleiddio tipio gwastraff o byllau glo bellach yn darparu fframwaith rheoli effeithiol ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn canolbwyntio'n bennaf ar dipio o fwyngloddiau gweithredol ac nid oes darpariaeth ddigonol ar gyfer tomenni nas defnyddir yr ystyriwyd eu bod yn llai o broblem[1].

80. Ers cyflwyno Deddf 1969, mae'r mwyafrif helaeth o'r pyllau glo gweithredol wedi cau. Mae ardaloedd o dir sy'n cynnwys tomenni nas defnyddir bellach yn eiddo i fuddiannau masnachol, preifat a'r sector cyhoeddus. Yn aml, gall y tir lle mae un domen nas defnyddir wedi'i lleoli fod yn destun cymysgedd cymhleth o fuddiannau. Byddai angen i unrhyw gyfundrefn reoli lwyddiannus allu adnabod ac ymgysylltu â sawl parti yn effeithiol, er mwyn monitro a rheoli tomenni nas defnyddir a'u gwneud yn ddiogel, a hysbysu ac addysgu perchnogion tir.

81. Mae hyn hefyd yn ymestyn i allu adnabod partïon y gellid eu canfod yn atebol am ymgymryd â gwaith, ei ariannu, neu gyfrannu at ei ariannu, neu i allu

[1] https://cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com/uploads/sites/30/2022/03/Regulating-Coal-Tip-Safety-in-Wales-Summary-of-Report.pdf

darparu cymorth ariannol neu gymorth arall er mwyn sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd .

82. Roedd y gyfres o dirlithriadau ar domenni nas defnyddir a ddigwyddodd yn 2020, gan gynnwys tirlithriad mawr tomen nas defnyddir yn Nhylorstown a achosodd i dros 60,000 o dunelli o weddillion syrthio i Afon Rhondda Fach, wedi dangos y risgiau posibl a berir i gymunedau gan domenni nas defnyddir. Mae hyn, ynghyd â'r casgliad nad yw'r gyfundrefn statudol bresennol yn addas i'r diben, wedi sbarduno datblygu'r Bil.

Prif amcan yr Awdurdod, fel y nodir yn adran 2 o'r Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae diogelwch y cyhoedd wrth wraidd nodau ac amcanion y Bil ac mae'r pwerau a'r dyletswyddau a roddir i'r Awdurdod o dan y Bil yn gyson â'r prif amcan. Wrth ystyried a yw'r pwerau/dyletswyddau a roddir i'r Awdurdod (gan gynnwys eu pwerau a'u dyletswyddau mewn perthynas â phrosesu data personol a rhannu gwybodaeth) yn angenrheidiol/cymesur, mae'n berthnasol ystyried prif amcan yr Awdurdod wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil (h.y. sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd) ac felly'r cysylltiad sydd rhwng swyddogaethau'r Awdurdod a sicrhau diogelwch y cyhoedd.

83. Bydd gwella diogelwch y cyhoedd a rhoi sicrwydd i gymunedau sy'n byw yn agos i domenni nas defnyddir angen cyfathrebu a chydweithio â pherchnogion tir, meddianwyr tir, rheolwyr tir a'r rhai sydd â buddiannau eraill mewn tir neu yn y tomenni nas defnyddir eu hunain. Os na fydd yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol a gweinyddu'r gyfundrefn reoli tomenni nas defnyddir newydd, mae'n bosibl na fydd y Bil yn cyflawni ei amcan i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.

84. Mae cymesuredd y darpariaethau perthnasol yn y Bil yn cael ei ystyried isod:

## Cymesuredd

### Adrannau 6 ac 8 – Cofrestr Electronig

85. Er na fydd y data a gyhoeddir yn y gofrestr ei hun yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n galluogi adnabod unigolion yn uniongyrchol, byddai'n darparu gwybodaeth a allai ganiatáu dod o hyd i wybodaeth am berchnogaeth tir o ffynonellau gwybodaeth eraill sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus (e.e. cofnodion Cofrestrfa Tir EF) gan y cyhoedd yn ehangach drwy ei leoliad.

86. Ar ôl ystyried hyn, ystyrir bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr electronig yn angenrheidiol ac yn gymesur â nod y prosesu, sef sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o natur unrhyw domenni nas defnyddir yn eu hardal ac yn cael gwybod amdanynt. Bydd gwybodaeth megis categori'r domen yn hysbysu'r cyhoedd o lefel ei bygythiad posibl a bydd gwybodaeth ar ddyddiad yr archwiliad diwethaf yn rhoi sicrwydd bod tomenni nas defnyddir yn cael eu harchwilio a'u monitro'n rheolaidd. Bydd yr Awdurdod yn derbyn help a chymorth gyda sefydlu'r gofrestr a bydd hyn, er enghraifft, yn lliniaru yn erbyn y risgiau o gasglu gormod o ddata personol.

**<u>Hysbysiadau. Adrannau 18, 19, 20, 21, 22, 23, 29, 30 Cyhoeddi hysbysiadau asesu, cofrestru newid hysbysadwy a gwybodaeth ac adrannau 33, 35, 42, 44, 45 cyhoeddi hysbysiadau gwaith.</u>**

87. Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswyddau i'r Awdurdod sy'n angenrheidiol ar gyfer rhedeg cyfundrefn reoli effeithlon o domenni nas defnyddir. Mae cyflwyno hysbysiadau ar adegau allweddol yn y broses o reoli tomen nas defnyddir neu pan allai perchennog tir gael ei effeithio'n benodol gan waith yr Awdurdod (e.e. adeg cofrestru, neu hysbysiad o waith) yn galluogi'r Awdurdod i roi gwybod i'r perchennog tir/meddiannydd/parti sydd â buddiant am weithgareddau sy'n gysylltiedig â thomen benodol, i'w hysbysu a ydynt wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn newydd a sicrhau tryloywder a thegwch iddynt a, lle bo'n berthnasol yr hawl i gyflwyno sylwadau neu apelio.

88. Er nad yw darpariaethau hysbysiadau'r Bil yn rhagnodol o ran ffurf yr hysbysiad ac ati, maent yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad ei chynnwys. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir mewn hysbysiad yn angenrheidiol ac yn gymesur i gyflawni amcanion yr hysbysiad dan sylw sydd, yn ei dro, yn caniatáu i'r Awdurdod arfer ei swyddogaethau o dan y Bil.

89. Mae'r darpariaethau hysbysiadau hefyd yn rhagnodol o ran y bobl y mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad penodol iddynt. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod ond yn cadw ac yn prosesu data personol mewn perthynas â'r personau y mae angen iddo gysylltu â nhw i fodloni gofynion y Bil. Mae pob un o'r darpariaethau hysbysiadau wedi'u drafftio i sicrhau mai dim ond y personau hynny, y mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn hysbysiad, sy'n cael copi. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod casglu a phrosesu data personol gan yr Awdurdod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er enghraifft, mae adran 18 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i roi hysbysiad i berchnogion tir ac unrhyw feddiannydd tir y mae angen mynediad iddo cyn cynnal asesiad llawn o domen nas defnyddir. Perchnogion a meddianwyr tir yn unig sydd angen cael gwybod am fwriad yr Awdurdod i fynd ar tir at y diben hwn, nid y rhai sydd â buddiannau eraill mewn tir megis, er enghraifft, yr hawl i echdynnu mwynau ac ati.

90. Mae’r gofynion rhoi hysbysiad yn ehangach o dan adran 29, er enghraifft, sy’n gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i roi hysbysiadau lle mae’n bwriadu gwneud newid hysbysadwy i gofnod ar y gofrestr o domenni nas defnyddir. Yn ogystal â pherchnogion a meddianwyr, rhaid rhoi rhybudd hefyd i unrhyw berson arall sydd, hyd y gwyddai’r Awdurdod, ag ystad neu fuddiant yn y tir heblaw am fel codwr morgais. Mae’r gofynion rhoi hysbysiad yn ehangach yn yr achos hwn oherwydd byddai gan y rhai sydd â buddiannau yn y tir sy'n ymestyn y tu hwnt i berchnogaeth neu feddiannaeth ddiddordeb mewn gwybod a oedd ffin neu gategori tomen nas defnyddir wedi newid.

91. Mae darpariaethau'r Bil hefyd wedi'u drafftio i sicrhau bod gofyniad i gyflwyno hysbysiad (ac felly prosesu data personol) yn cael ei osod ar yr Awdurdod dim ond pan fydd angen rhoi hysbysiadau er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil a'i alluogi i gyflawni ei brif amcan o sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd ansefydlogrwydd yn unig.

92. Er enghraifft, os yw asesiad o domen nas defnyddir yn dangos bod angen gwaith i sefydlogi’r domen, mae gan yr Awdurdod y gallu i roi hysbysiad i berchennog tir sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â gwaith i sefydlogi'r domen nas defnyddir (adran 33). Rhaid rhoi copi o’r hysbysiad i’r personau a nodir yn adran 35 oherwydd gallai’r gwaith effeithio ar y personau hynny a rhoddir hawl iddynt apelio yn erbyn yr hysbysiad. Felly, mae prosesu data personol yn angenrheidiol, ac rydym wedi cymryd camau yn y drafftio i sicrhau bod y gofynion yn gymesur – a dim ond y personau y mae angen hysbysiad arnynt sy’n derbyn un. Eto, mae hyn yn cyfyngu ar y categorïau ac felly ar nifer y personau y bydd angen i’r Awdurdod gadw eu data personol.

**Rhannu gwybodaeth – adrannau 55, 56, 57, 58, 59, 60 a 61.**

93. O ran prosesu data a rhannu data, mae darpariaethau perthnasol y Bil yn adrannau 55,56,57, 58, 59 a 60, yn creu dyletswyddau statudol penodol i rannu data. Mae hyn yn cynorthwyo gyda chydymffurfio â’r cyntaf o’r egwyddorion diogelu data allweddol yn Erthygl 5(1)(a) GDPR y DU (bydd data personol yn cael eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â’r testun data).

94. Fodd bynnag, er bod darpariaethau'r Bil yn darparu'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn sail gyfreithlon ar gyfer rhannu data, mater i'r Awdurdod, Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol ac ati fel rheolyddion/proseswyr y data personol perthnasol fydd bodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion Erthygl 5, Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU yn gyffredinol ac fel y bo’n briodol mewn perthynas â’r prosesu data a wneir ganddynt. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr asesiad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei sefydlu mewn modd sy'n ei

alluogi i gydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â phrosesu data.

~~95.~~ Wrth ddatblygu darpariaethau'r Bil, rydym wedi bod yn ystyriol o ofynion Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

96. Bydd yr wybodaeth sydd i'w rhannu o dan y darpariaethau a nodir uchod yn debygol o gynnwys data personol megis enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, ffotograffau/delweddau (er enghraifft, sy'n dangos/sy'n dystiolaeth bod gweithgareddau penodol yn digwydd/wedi digwydd ar dir sy'n bygwth sefydlogrwydd tomen nas defnyddir). Gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â thir penodol neu weithgareddau a wnaed neu na wnaed ar dir sydd wedi achosi newidiadau i dir. Mae'n annhebygol iawn y bydd data masnachol sensitif, data cyfrinachol neu ddata categori arbennig yn cael eu rhannu o dan y darpariaethau hyn.

97. Bydd y data personol a rennir o dan y darpariaethau hyn yn gyfyngedig, er enghraifft i alluogi neu gynorthwyo'r Awdurdod i nodi neu asesu bygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu asesu sefydlogrwydd tomen nas defnyddir er mwyn osgoi neu leihau bygythiad i les dynol, neu at ddibenion swyddogaethau ACP. Fel y nodir uchod, bydd yn rhaid i'r Awdurdod neu'r ACP fodloni eu hunain, fesul achos a yw'n ofynnol iddynt rannu'r wybodaeth, gan ystyried eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

98. Ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn angenrheidiol i sicrhau y gall yr Awdurdod gyflawni ei swyddogaethau'n briodol ac, er mwyn sicrhau gweithredu priodol y gyfundrefn newydd o dan y Bil, ystyrir bod y darpariaethau'n gymesur â'r nod hwnnw.

## Atodiad 1: Naw maen prawf a allai ei wneud yn ofynnol cwblhau AEDdD

(Yn unol â Chanllawiau ar Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data (AEDdD) (wp248rev.01))

| **Meini prawf** | **Ymateb** |
|---|---|
| Gwerthuso neu Sgorio | Ni wneir unrhyw werthuso neu sgorio o ddata personol gan wasanaethau digidol a data'r Awdurdod. |
| Gwneud penderfyniadau awtomataidd gydag effaith gyfreithiol (neu debyg) arwyddocaol | Nid oes unrhyw wneud penderfyniadau awtomataidd yn seiliedig ar ddata personol. Gall yr Awdurdod ddefnyddio llifoedd gwaith i gynorthwyo categoreiddio lefel risg y mae tomen nas defnyddir benodol yn ei pheri, ond ni fydd hyn yn cynnwys data personol. |
| Monitro Systematig | Nid oes unrhyw fonitro o destunau data gan yr Awdurdod. |
| Data sensitif neu ddata o natur bersonol iawn | Ni fydd yr Awdurdod yn casglu data sensitif. Fodd bynnag, mae rhan o'u cylch gwaith yn eu galluogi i ddwyn erlyniadau am droseddau a grëwyd o dan y Bil, a byddai angen casglu tystiolaeth o'r troseddau honedig hynny a'u cadw i gefnogi unrhyw erlyniad posibl. |
| Data a brosesir ar raddfa fawr | Bydd yr Awdurdod, dros amser, yn dal data personol ar gyfer degau o filoedd o destunau data. Nid oes diffiniad clir o'r hyn sy'n gyfystyr â "phrosesu ar raddfa fawr". Fodd bynnag, o ystyried mai cylch gwaith yr Awdurdod yw arfer swyddogaethau i sicrhau sefydlogrwydd parhaus pob tomen nas defnyddir yng Nghymru, awgrymir y bydd nifer y testunau data o bosibl yn llai nag 1% o boblogaeth Cymru (heb gymryd i ystyriaeth y bydd rhai o'r "testunau data" yn endidau masnachol yn hytrach nag unigolion). Felly, y farn yw nad oes unrhyw brosesu o ddata personol ar raddfa fawr. |

| | |
|---|---|
| Paru neu gyfuno setiau data | Yr unig ddefnydd o baru data fydd i ailwirio bod gan yr Awdurdod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer rhanddeiliaid pob tomen nas defnyddir. Ar ôl storio cychwynnol perchnogion tir yn y rhestr rhanddeiliaid, bydd yr Awdurdod (ar adeg benodol cyn asesu tomen) yn gofyn am y manylion perchnogaeth teitl tir diweddaraf gan Gofrestrfa Tir EF i wirio bod y perchennog sydd wedi'i restru gan yr Awdurdod yn dal i fod yn berchen ar deitl tir penodol. Yn yr un modd, pan ddarperir data ar bapur (e.e. gan gyrff cyhoeddus eraill neu o ganlyniad i rywun, y rhoddwyd hysbysiad iddynt, yn darparu gwybodaeth), bydd hyn yn cael ei wirio â llaw yn erbyn y rhestr rhanddeiliaid bresennol. Drwy wneud hyn, bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn gwneud pob ymgais resymol i gadw ei ddata yn "gyfredol". |
| Data sy'n ymwneud â thestunau data agored i niwed | Nid yw'r data personol a brosesir gan yr Awdurdod yn canolbwyntio ar destunau data agored i niwed. Ni ddisgwylir i blant fod yn berchnogion cofrestredig o dir yng nghofnodion Cofrestrfa Tir EF ac ni chasglir data categori arbennig. Ar ben hynny, ni fydd yr Awdurdod yn gwahaniaethu rhwng categorïau o berchnogion/meddianwyr tomenni nas defnyddir mewn unrhyw ffordd. |
| Defnydd arloesol o ddatrysiadau technolegol neu sefydliadol newydd neu eu cymhwyso | Ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio technolegau arloesol neu newydd sy'n cynnwys data personol. Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod, ymhen amser, yn defnyddio dyfeisiau monitro o bell sy'n defnyddio technolegau'r "Rhyngrwyd Pethau", ac yn defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) i brosesu'r data monitro sy'n deillio o'r dyfeisiau hynny, ond ni fyddai hyn yn cynnwys data personol o unrhyw fath. |
| Pan fydd y prosesu ynddo'i hun yn "atal testunau data rhag arfer hawl neu ddefnyddio gwasanaeth neu gontract" | Ni fydd y defnydd o ddata personol gan yr Awdurdod yn atal testun data rhag arfer hawl neu ddefnyddio gwasanaeth neu gontract. |

Yn unol ag erthygl 35(3) o'r GDPR mae angen AEDdD llawn os yw'r cynigion yn bwriadu:

• defnyddio proffilio systematig a helaeth gydag effeithiau sylweddol;

• prosesu data categori arbennig neu ddata troseddau ar raddfa fawr; neu

• fonitro'n systematig ar raddfa fawr mannau y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt

Mae canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn datgan y bydd angen AEDdD llawn os bydd prosesu yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

• defnyddio technolegau newydd;

• defnyddio proffilio neu ddata categori arbennig i benderfynu ar fynediad at wasanaethau;

• proffilio unigolion ar raddfa fawr;

• prosesu data biometrig;

• prosesu data genetig;

• paru data neu gyfuno setiau data o wahanol ffynonellau;

• casglu data personol o ffynhonnell heblaw'r unigolyn heb roi hysbysiad preifatrwydd iddynt ('prosesu anweledig');

• olrhain lleoliad neu ymddygiad unigolion;

• proffilio plant neu dargedu marchnata neu wasanaethau ar-lein atynt; neu

• brosesu data a allai beryglu iechyd corfforol neu ddiogelwch yr unigolyn pe bai achos o dor diogelwch.

Rydym yn fodlon na fydd y cynigion yn cynnwys prosesu o'r fath. Yn benodol, er efallai y bydd yr Awdurdod yn prosesu data troseddau oherwydd ei allu i erlyn am droseddau a grëwyd o dan y Bil, fel y nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder, rhagwelir y bydd nifer y troseddau a ddygir o dan ddarpariaethau'r Bil bob blwyddyn yn isel. Yn ogystal, mae gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus y pŵer i erlyn am droseddau o dan y Bil, ac felly nid yr Awdurdod yn unig fydd yr awdurdod erlyn.

**Atodiad 2 – Asesiad Risg**

Rydym wedi ystyried y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â "phrosesu anweledig" (casglu data personol o ffynhonnell heblaw'r unigolyn heb roi hysbysiad preifatrwydd iddynt). Bydd achosion lle bydd yr Awdurdod yn cyrchu data o'r Gofrestrfa Tir ac yn eu defnyddio heb i'r testunau data wybod o reidrwydd (i gychwyn) pa ddefnydd y bydd yr Awdurdod yn ei wneud o'r data hwnnw.

Rydym o'r farn:

• Bod data'r Gofrestrfa Tir ar gael i unrhyw un am bris, a bod y Gofrestrfa ei hun yn darparu ei hysbysiad preifatrwydd ei hun i'r perwyl hwnnw.

• Pan fydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r testunau data, bydd yn cyhoeddi ei hysbysiad preifatrwydd ei hun ar y pryd, ac ar yr adeg honno bydd yn peidio â bod yn 'anweledig'.

Felly, rydym o'r farn na fydd prosesu "anweledig" o ddata o dan ddarpariaethau'r Bil. Bydd y data hefyd yn ddarostyngedig i'r hawl i gywiro lle mae'n anghywir.

Yn ogystal, rydym hefyd yn ymwybodol (fel y nodir ym mharagraff 30 uchod) y gallai fod achlysur lle mae angen i feddiannydd y tir (neu berson sy'n derbyn rhent mewn perthynas â'r tir perthnasol) gadarnhau manylion unrhyw un arall sydd ag ystad neu fuddiant yn y tir. Yn yr achosion hynny, mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn darparu'r wybodaeth breifatrwydd berthnasol adeg cysylltu â'r unigolyn hwnnw, gan na fyddent o reidrwydd yn ymwybodol o sut y daeth yr Awdurdod i brosesu ei ddata personol. Mae hyn yn rhan o'r Hawl i gael gwybod | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd canllawiau a gyhoeddir i'r Awdurdod gan Weinidogion Cymru yn eu hatgoffa o'r gofyniad hwn, a bydd templedi yn cynnwys datganiadau priodol i sicrhau bod testunau data yn ymwybodol o'r wybodaeth hon a'u hawliau.